Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

TRAWSIEITHU



TRAWSIEITHU

Beth yw trawsieithu?

Sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall, e.e.:

Darllen yn Saesneg ond yna'n ysgrifennu yn Gymraeg

Gwrando yn Saesneg ond yna'n siarad yn Gymraeg



Mae'r term wedi ei gyfieithu i'r Saesneg – 'translanguaging'

Testun ymchwil Cen Williams ym Mangor yn yr 1980

Trawsieithu

Bathwyd y term i ddisgrifio proses clywed gwybodaeth mewn un iaith, a'i thrafod/ysgrifennu mewn iaith arall

Ymchwil yn edrych ar strategaethau i helpu dysgwyr i ddefnyddio dwy iaith mewn gwers.

Trawsieithu

Beth yw trawsieithu a sut mae ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf yw sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall e.e.

Darllen yn Saesneg → Ysgrifennu yn Gymraeg /
Gwrando yn Saesneg → Siarad yn Gymraeg

Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng trawsieithu a chyfieithu

CYFIEITHU

Rhaid trosglwyddo'r testun yn ei gyfanrwydd o un iaith i'r llall.

TRAWSIEITHU

Rhaid trosglwyddo ystyr y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng **trawsieithu** a **chyfieithu**.

Wrth gyfieithu, rhaid trosglwyddo'r **testun yn ei gyfanrwydd** o un iaith i'r llall.

Wrth **DRAWSIEITHU,** rhaid trsoglwyddo **YSTYR** y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Wrth **drawsieithu** yn ysgrifenedig:

Rydym yn

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)
- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl



- **DARLLEN** darn yn sydyn ac yn arwynebol er mwyn cael syniad o'r cynnwys.
- Nodi'r pwyntiau yr ydych wedi sylwi arnynt
- Darllen y darn yn fanwl
- Beth yw prif bwynt y darn?
- Beth yw'r is-bwyntiau?
- Gwnewch bwyntiau bwled neu fap meddwl
- Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn. Pediwch â chyfieithu air am air. Defnyddiwch eich geiriau eich hun

Crynhowch gynnwys y darn i draean y gwreiddiol gan gofio

- Peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
- Dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
- Osgoi ailadrodd
- Defnyddio eich geiriau eich hun
- Cadw’r brawddegau yn fyr



Dyma gamau penodol i'w dilyn wrth i chi fynd ati i drawsieithu:

1. Darllenwch y darn yn fanwl gan wneud hynny sawl gwaith
2. Beth yw prif bwynt y darn?
3. Beth yw'r is-bwyntiau? Gwnewch restr ohonynt.
4. Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn.
5. Crynhowch gynnwys y darn (i draean y gwreiddiol) gan gofio:
   i. defnyddio eich geiriau eich hun
   ii. cadw'r brawddegau'n weddol fyr
   iii. peidio a chynnwys eich barn
   iv. peidio a chynnwys enghreifftiau oni bai eu bod yn hanfodol
   v. osgoi ailadrodd.
6. Cofiwch wirio eich sillafu, cenedl enwau, treigladau a threfn eich brawddegau. Mae'n bwysig eich bod yn ysgrifennu'r darn yn gywir ac yn naturiol gan osgoi dilyn trefn y brawddegau Saesneg.
7. Defnyddiwch Cysill i wirio'ch gwaith ar y diwedd.

Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.

Rhaid cofio ysgrifennu'n gryno felly!



Yr Amhersonol

Mae ffurfiau'r amhersonol yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau ysgrifenedig ffurfiol. Mae'r amhersonol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgrifennu cofnodion.

Dyma'r terfyniadau:

-ir	y presennol	e.e.	**dywedir**
-wyd	y gorffennol	e.e.	**ysgrifennwyd**
-id	yr amherffaith a'r amhenodol	e.e.	**edrychid**
-er	y gorchmynnol	e.e.	**sylwer**

- Nid yw'r terfyniadau hyn yn dweud **pwy** sy'n gweithredu.
- Mae'r gweithredwr yn cael ei nodi ar ôl **gan**, e.e.
  Ysgrifennwyd dau lythyr gan Efa.
- Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.
  Cyhoeddwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Mae **ni** neu **nid** yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal, e.e.
  Ni **l**wyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.
  Ni **ch**yhoeddir y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.

Dyma ambell ffurf afreolaidd:

	Presennol	Gorffennol
mynd	**eir**	**aed, aethpwyd**
dod	**deuir**	**daethpwyd**
cael	**ceir***	**caed, cafwyd**
gwneud	**gwneir**	**gwnaed, gwnaethpwyd**

*Mae **ceir** yn gallu cael ei ddefnyddio yn lle **mae yna**, e.e.
Ceir nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.
Mae yna nifer o ddarlithoedd ar ddydd Llun fel arfer.

Enghraifft (Papur 1)

Transcript of speech by Vice Chancellor Adrian Thomas at the Faculty of Arts Graduation Ceremony, 20 June, held in O'Reilly Hall, St John's University.

Dear colleagues, friends, parents and graduands.
It's my pleasure to welcome you to this wonderful hall to celebrate the achievement of our students, graduating after three years of hard work in the Arts Faculty of our university. It's a significant year for us at St John's of course, celebrating our seventy fifth anniversary. There have been a number of events to mark the occasion, as many of you will know, and this graduation ceremony will be one of the most important, giving us an opportunity to reflect and look forward. It would have been a very different ceremony seventy five years ago, when that first small cohort of students graduated.

We may be a small university but our achievements are many, and we have contributed to many different fields of study. Very recently, our Faculty of Science featured on a BBC news item because of the pioneering work done in tracking the spread of the Zika virus in the developing world. The virus has been identified as an international health emergency by the World Health Organisation, and the research completed here has contributed to our understanding of how this virus works. Other disciplines are also well represented. I'm proud to welcome one of our alumni, Mrs Erin Williams, to receive an honorary doctorate for her work in the field of child psychology. She has published several articles on dyslexia, cognitive development and multilingualism and is in demand as a conference speaker around the world. Being a smaller university is no hindrance to success in any field. I would also argue that being a smaller university greatly enhances the undergraduate experience. I was heartened that the National Student Survey ranked St John's as the friendliest of all UK universities. Excellence in academic research goes hand in hand with good teaching and an atmosphere where students are encouraged and supported.

For some of you, this is the culmination and end of three years of study, but many of you will be embarking on post-graduate studies next September. The proportion of graduates staying on to work towards MA, MSc or full doctorate studies at St John's is one of the highest in the UK; at least 20% of graduates have expressed this as their intention this year. This in itself is a reflection of the esteem in which the University is held by its students, and of the dedication of the lecturing staff. I wish you well in your future studies, and for those leaving St John's, I wish you well in your future careers. Thank you, and congratulations once again.

Meini Prawf

Rhan 2 – Trawsieithu 40 marc
Addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen testun ysgrifenedig Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol, e.e. ysgrifennu crynodeb o destun Saesneg ar gyfer cynulleidfa benodol.

Asesir gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu'n gywir, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa, ac i lunio testun terfynol sy'n briodol i'r diben a ddisgrifir yn y dasg. Yn ogystal, bydd nifer o bwyntiau allweddol yn y testun gwreiddiol, ac asesir gallu'r ymgeisydd i gynnwys y pwyntiau priodol yn y trawsieithiad.

Cynllun Marcio

40 marc

Y2.1	**Cywirdeb**	10 marc
	9-10	ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau yn unig.
	7-8	ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.
	5-6	ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.
	3-4	ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.
	0-2	y testun yn cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.

Y2.2	**Ystod**	10 marc
	9-10	defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.
	7-8	defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.
	5-6	defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.
	3-4	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.
	0-2	defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.

Y2.3	**Addasrwydd y testun** 10 marc 9-10 y testun terfynol yn gwbl briodol i'r dasg a osodwyd, e.e. ffurf, hyd, cywair neu'r gynulleidfa y bwriadwyd y testun ar ei chyfer. 7-8 y testun terfynol yn addas i'r dasg a osodwyd, er bod un neu ddwy agwedd (e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa) yn llai addas. 5-6 y testun terfynol yn foddhaol, er bod rhai agweddau nad ydynt yn briodol, e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa. 3-4 y testun terfynol yn anaddas o ran y dasg a osodwyd, neu'r ymgeisydd heb gyflawni'r gofynion o ran ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa. 0-2 y testun terfynol yn gwbl anaddas i'r dasg.

Y2.4	**Pwyntiau allweddol** 10 marc Mae 5 o bwyntiau allweddol y mae angen i'r ymgeisydd eu cynnwys yn y trawsieithiad, a fydd yn dangos eu bod wedi deall y testun gwreiddiol, Saesneg. Rhoddir 2 farc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn rhannol neu'n lled briodol.

Ateb enghreifftiol:

Pen-blwydd Arbennig a Llwyddiant Mawr

Dathlwyd pen-blwydd y Brifysgol yn 75 oed mewn araith gan yr Is-Ganghellor Adrian Thomas yn Seremoni Raddio Cyfadran y Celfyddydau yn Neuadd O'Reilly ym mis Mehefin.
Soniodd hefyd am ymchwil nodedig a wnaed gan y brifysgol ar ledaeniad y firws Zika. Roedd y gwaith hwn gan Gyfadran y Gwyddorau yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Soniodd hefyd am waith y gyn-fyfyrwraig, Erin Williams ym maes seicoleg plant a datgelodd fod y brifysgol yn dyfarnu gradd er anrhydedd iddi am y gwaith hwn.

Roedd yr Is-ganghellor yn hynod falch bod y brifysgol wedi cyrraedd y brig yng nghategori Prifysgol Mwyaf Cyfeillgar y Flwyddyn mewn arolwg cenedlaethol ar farn myfyrwyr.
I gloi, mynegodd falchder yn y ffaith bod canran uchel o'r myfyrwyr yn bwriadu mynd yn eu blaen i ddilyn cyrsiau ôl-radd y flwyddyn nesaf.
(136 o eiriau)

Sut gellir defnyddio trawsieithu i hybu'r Gymraeg mewn dosbarth lle mai'r Gymraeg yw'r ail iaith?

Gwyliwch y clip

'What is translanguaging, really?'

https://www.youtube.com/watch?v=iNOtmn2UTzI



Tasg

Mewn grŵpiau meddyliwch am weithgaredd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd disgyblion yn y dosbarth gan ddefnyddio'r sgil Trawsieithu.

Byddwch chi'n cyflwyno eich syniadau i weddill y dosbarth.

